

Tasg 2

Lliwgar! Cyffrous! Anhygoel!

Dyfeisio

Edrychwch ar y clip yma er mwyn i chi gael cip ar yr ŵyl llusernau:

<https://www.youtube.com/watch?v=5wrpyxqqlkg>

Er mwyn creu llusern drawiadol, mae llawer o'r dyfeiswyr yn treulio tua blwyddyn yn creu eu campweithiau. Rhaid:

- meddwl am gynllun
- ystyried y lliwiau
- gwneud ffrâm sy'n cynnwys bariau dur gydag adran rhwng pob bar i gynnwys y bylbiau o wahanol liw
- defnyddio ffoil metel ym mhob adran er mwyn adlewyrchu'r golau
- cysylltu'r holl fylbiau a'r gwifrau â chyflenwad trydan
- dewis darn o gerddoriaeth addas
- cynnwys rotorau neu olwynion llywio i greu patrymau lliwgar – pan fydd rhywun yn eu symud, bydd y lliwiau'n dawnsio fel mewn caleidosgôp.
- cludo'r llusern i'r ŵyl ar lorïau anferth.

Mae rhai o'r llusernau'n enfawr. Maen nhw ar ffurfiau gwahanol. Maen nhw'n anhygoel o hardd!

Cynlluniwch lusern addas ar gyfer yr ŵyl hon.

Dylech chi:

- gynllunio wrth raddfa, e.e. faint fydd pob centimetr yn ei gynrychioli. Dangoswch y raddfa ar waelod y cynllun.
- egluro pa batrwm / batrymau fydd yn cael eu creu.
- dangos pa liwiau byddwch chi'n eu defnyddio.
- egluro sut bydd y lliwiau'n newid.
- cyfeirio at ba gerddoriaeth bydd yn cael ei chwarae wrth ddangos y llusern.